# Deall arolygiadau mewn ysgolion:  Canllaw ar gyfer rhieni a gofalwyr

**Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu ystod eang o ddarpariaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru, a bydd yn arolygu ysgol eich plentyn cyn bo hir.**

## Sut mae arolygwyr yn ystyried fy marn am yr ysgol?

Mae Estyn eisiau gwybod eich barn am yr ysgol. Gallwch wneud hyn trwy:

- **lenwi holiadur ar-lein** trwy ddilyn y ddolen uniongyrchol a roddwyd i chi gan yr ysgol neu trwy fynd i https://vir.estyn.gov.uk, clicio ar ‘llenwi holiadur i rieni’ a theipio 13275.  Bydd yr holiaduron ar gael tan 11/04/2019.
- **mynychu cyfarfod ag arolygwyr**.  Bydd yr ysgol yn rhoi dyddiad ac amser y cyfarfod i chi.

Os cewch unrhyw drafferthion wrth fynd at yr holiadur neu ei lenwi, gallwch ofyn i’ch ysgol neu Estyn am gopi caled.  Dylid dychwelyd copïau caled yn uniongyrchol gan ddefnyddio’r dull rhadbost neu ‘Yn Gyfrinachol’ trwy eich ysgol erbyn 08/04/2019 fan bellaf.

## Sut bydd arolygiad o fudd i’m plentyn?

Mae arolygiad yn dweud wrthych am y safonau a’r ansawdd yn ysgol eich plentyn.  Mae’n rhoi barn arbenigol i’r ysgol ar ei gwaith, gan amlinellu’r hyn y mae’n ei wneud yn dda a’i helpu i wella.

## Pwy sy’n arolygu’r ysgol?

Caiff y tîm arolygu ei arwain gan Arolygydd Cofnodol sydd â phrofiad sylweddol o addysgu ac addysg.  Mae pob tîm arolygu yn cynnwys arolygydd lleyg ac arolygydd cymheiriaid hefyd.  Nid yw arolygwyr lleyg wedi gweithio fel athrawon mewn ysgol, ac mae arolygwyr cymheiriaid yn benaethiaid neu’n rheolwyr o ysgol arall.  Caiff pob ysgol enwebu rhywun i gysylltu’n uniongyrchol â’r tîm arolygu i roi gwybod i’r arolygwyr am yr ysgol a’i gwaith.

## Sut bydd yr ysgol yn cael ei harolygu?

Mae arolygwyr yn dilyn arweiniad arolygu Estyn. Byddant yn defnyddio adroddiad hunanarfarnu’r ysgol fel eu man cychwyn.

## Sut bydd arolygwyr yn ystyried barn fy mhlentyn am yr ysgol?

Yn ystod yr arolygiad, bydd arolygwyr yn gofyn i grwpiau o blant sut maent yn teimlo am yr ysgol, eu gwaith a pha mor dda y maent yn dod yn eu blaenau. Bydd pob dysgwr yng nghyfnod allweddol 2 ac uwch yn llenwi holiadur ar-lein cyn yr arolygiad.

Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty’s Inspectorate for Education and Training in Wales

## Sut byddaf yn gwybod barn yr arolygwyr am yr ysgol?

Caiff adroddiadau arolygu eu cyhoeddi ar wefan Estyn 45 diwrnod gwaith ar ôl dechrau’r arolygiad.  Bydd y corff llywodraethol yn anfon manylion am yr adroddiad atoch hefyd.

## Beth fydd yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad?

Bydd yr adroddiad yn cynnwys barnau cyffredinol am:

- safonau
- lles ac agweddau at ddysgu
- addysgu a phrofiadau dysgu
- gofal, cymorth ac arweiniad
- arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt wrth lunio’r barnau hyn:

**Rhagorol:** Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig
**Da:** Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau
**Digonol ac angen gwelliant:** Cryfderau’n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella
**Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys:** Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau

## Beth sy’n digwydd ar ôl arolygiad?

Rhaid i bob ysgol greu cynllun gweithredu yn seiliedig ar yr argymhellion yn yr adroddiad arolygu. Bydd y tîm arolygu hefyd yn ystyried a oes angen unrhyw weithgarwch dilynol ar yr ysgol.  Mae’r tri math o weithgarwch dilynol yn cynnwys:

**Adolygu gan Estyn:** bydd cynnydd yr ysgol o ran mynd i’r afael â’r argymhellion a amlygir yn yr adroddiad yn cael ei adolygu tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu
**Gwelliant sylweddol:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn yn ymweld â’r ysgol tua 12-18 mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad arolygu
**Mesurau arbennig:** bydd tîm bach o arolygwyr Estyn  yn cynnal ymweliadau rheolaidd i adolygu cynnydd yn yr ysgol yn sgil cyhoeddi adroddiad yr arolygiad

## Sut gallaf i gysylltu ag Estyn?

**Cyfeiriad:** Rhadbost ESTYN
**E-bost:** ic@estyn.llyw.cymru
**Ffôn:** 02920 446446
**Adborth am arolygiadau:** adborth@estyn.llyw.cymru

**Am ragor o wybodaeth am Estyn, ewch i’n gwefan - http://www.estyn.llyw.cymru**